Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## MAE GWENYN, GLOŸNNOD BYW A PHRYFED PEILLIO ERAILL MEWN TRAFFERTH A HYNNY AM NIFER O RESYMAU.

## OND Y NEWYDDION DA YW EIN BOD NI'N GALLU HELPU.

Pe bai gwenyn, gwyfynod neu loÿnnod byw yn gallu siarad, beth fydden nhw'n gofyn inni amdano? Fwy na thebyg, bydden nhw am inni warchod a gwella'r mannau lle mae eu bwyd yn tyfu a'r mannau lle y maen nhw'n byw ac yn cysgodi, i beidio â defnyddio cemegau niweidiol ac inni ddweud wrth gymaint o bobl â phosib am y problemau maen nhw'n eu hwynebu – er mwyn i fwy o bobl allu helpu.

# CYNLLUN CARU GWENYN

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i warchod pryfed peillio yng Nghymru, o'r enw Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio[1]. Cafodd Tasglu o fudiadau ac unigolion ei sefydlu i roi'r cynllun ar waith.

Nod **Caru Gwenyn**, cynllun newydd y Tasglu, yw helpu'n holl bryfed peillio trwy greu gwlad o gymunedau a mudiadau sy'n caru pryfed peillio.

Menter yw **Caru Gwenyn** ar gyfer cymunedau a mudiadau cymunedol, ysgolion, cyrff cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned, busnesau, prifysgolion a cholegau, addoldai ... a phob math o gyrff a sefydliadau eraill ledled Cymru.

Wrth ei wraidd, mae'r Cynllun Caru Gwenyn yn ymwneud â gwneud Cymru'n wlad sy'n Gyfeillgar i Beillwyr.

1 gov.wales/action-plan-pollinators





LLun: © Steven Falk





# AI DIM OND GWENYN SY'N CAEL HELP?

**Nage – rydym yn helpu pob pryfedyn sy'n peillio.**

Mae pryfed peillio yn cynnwys gwenyn mêl, cacwn/gwenyn bwm a gwenyn unig eraill, rhai picwn/gwenyn meirch, gloÿnnod byw, gwyfynod a chlêr hofran, a rhai chwilod a chlêr/pryfaid.

Er mai 'Caru Gwenyn' yw enw'r cynllun, rydyn ni am i bobl helpu ein holl bryfed peillio ac nid gwenyn yn unig.

Ymunwch â ni i weithredu pedair prif thema, i greu gwlad o gymunedau a mudiadau sy'n caru pryfed peillio.

**Pedair thema Caru Gwenyn yw:**

1. **Bwyd –** gwneud yn siŵr bod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal
2. **Cartre pum seren –** darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw
3. **Dim plaladdwyr (i gynnwys pryfladdwyr a chwynladdwyr –** addewid i beidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio
4. **Hwyl –** cael y gymuned i gymryd rhan ac esbonio wrth bobl pam eich bod yn helpu pryfed peillio.

# PAM HELPU PEILLWYR?

- Mae poblogaethau peillwyr wedi bod yn dirywio'n ddifrifol am y deugain mlynedd diwethaf. Mae tystiolaeth am ddirywiad eang mewn gwenyn unig, cacwn, a rhai pryfed hofran.
- Mae peillwyr yn hanfodol i beillio cnydau masnachol, ffrwythau meddal, perllannau, cnydau garddwriaethol, a blodau gwyllt a gardd.
- Mae amgylcheddau naturiol amrywiol a deniadol yn dda i beillwyr. Maen nhw'n dda i bobl hefyd. Mae mannau gwyrdd naturiol a chyswllt â bywyd gwyllt yn hanfodol i'n lles.
- Mae llawer o beillwyr, yn enwedig pryfed a gwyfynod, yn fwyd hanfodol i adar a mamaliaid bach eraill.





> “MAE’R DYFODOL YN DIBYNNU AR YR HYN A WNEWCH HEDDIW.”
>
> Mahatma Gandhi

## GWEITHREDU NAWR

Gyda chymaint o fudiadau, cyrff, busnesau ac unigolion yn gweithio i warchod a gwella bioamrywiaeth, ecosystemau a natur Cymru a’r byd, dyma gyfle nawr inni wneud newidiadau positif go iawn a thymor hir. Drwy gydweithio gallwn gefnogi peillwyr a gwneud gwahaniaeth.

P’un a ydych yn rhan o’r cynllun **Caru Gwenyn** yn aelod o’r un o lawer o fudiadau sy’n ein cefnogi neu’n unigolyn sy’n poeni am y ddaear, ystyriwch beth allwch chi ei wneud i greu byd sy ychydig bach yn well – darllenwch Ganllaw Gweithredu **Caru Gwenyn** ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[2]. Mae gan ei dudalen we Caru Gwenyn hefyd ddeunyddiau defnyddiol eraill megis rhestr blanhigion, llyfryn Plannu ar gyfer Peillwyr, posteri, manylion cyswllt ar gyfer eich Hyrwyddwr Gwenyn lleol ac astudiaethau achos fydd gobeithio yn eich ysbrydoli.

2 www.biodiversitywales.org.uk/Bee-Friendly





OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45938,
Argraffu ISBN 978-1-80364-820-0,
ISBN digidol 978-1-80364-821-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg